OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 266

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009

## RHAN 5

Penodi cynrychiolwyr

**Penodi cynrychiolydd**

**12.** Bydd corff goruchwylio yn penodi mewn ysgrifen unrhyw berson a ddetholir yn unol â Rhan 4 yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

**Gofynion ffurfiol penodi cynrychiolydd**

**13.** Rhaid hysbysu'r personau canlynol o benodiad cynrychiolydd—

(a) y person perthnasol;

(b) yr awdurdod rheoli perthnasol;

(c) unrhyw roddai neu ddirprwy i'r person perthnasol;

(ch) unrhyw eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddyliol(**1**) a benodwyd yn unol â'r Ddeddf; a

(d) unrhyw berson y bydd yr asesydd lles pennaf wedi ymgynghori ag ef.

(**1**) Caiff "*independent mental capacity advocate*" ei ddiffinio yn adran 64(1) o'r Ddeddf.